

Dyfodol 'Gwneud Lles' yng Nghymru:

papur trafod

Mae elusennau, mudiadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol o bob math - y sector cymdeithasol - yn chwarae rôl sylweddol yng Nghymru heddiw. At ei gilydd mae mwy na 33,000 o fudiadau, wedi eu cefnogi gan bron 1 miliwn o wirfoddolwyr a 79,000 o staff â thâl.¹ Mae eu gweithgareddau'n amrywio o chwaraeon a hamdden, i wasanaethau plant ac oedolion bregus, i gadwraeth a bywyd gwylt, i iechyd a gofal cymdeithasol. Yr un ffactor sy'n uno nhw yw mai amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol yw eu cymhelliant yn hytrach nag elw.

mae llawer o weithgareddau'r sector cymdeithasol yn ymwneud â phethau, profiadau neu gyfleoedd y gall pobl elwa ohonynt nad oes ganddynt bris ar y farchnad gan amlaf. Rydym yn galw hyn yn 'wneud lles'. Mae rhannau o'r sector cyhoeddus yn 'gwneud lles' hefyd, boed darparu gofal iechyd neu glirio sbwriel. Yn anffodus, i rai pobl mae'r ymadrodd 'gwneud lles' yn awgrymu gweithredoedd y bwriedir iddynt fod yn dda ond sydd heb fod o fudd - ond rydym yn credu y dylem ei hadennill.

Mae elusennau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol yn profi heriau mawr:

- Mae ariannu o dan bwysau - mae grantiau Llywodraeth Cymru'n unig wedi gostwng £142 miliwn rhwng 2010/11 a 2014/15.²
- Mae'r galw am sawl math o wasanaeth ar gynnydd, p'un ai ar gyfer cymorth bwyd brys, lloches i bobl ddigartref neu gyngor.
- Mae newidiadau cymdeithasol, economaidd, technolegol ac amgylcheddol y mae angen iddynt addasu iddynt.

Mae'r newidiadau hyn yn codi rhai cwestiynau sylfaenol am ddyfodol llawer o wasanaethau a gweithgareddau a ddarperir gan fudiadau nid er elw Cymru ac am gyfleoedd mudiadau eu hunain.

Mae Cronfa Loteri Fawr Cymru'n cydweithio â Sefydliad Bevan i symbylu trafodaethau ymysg cymunedau, elusennau, mentrau cymdeithasol, y llywodraeth a busnesau am sut y gallai'r dyfodol edrych. Mae'r nodyn hwn yn amlinellu rhai o'r materion yr hoffem glywed eich barn arnynt, gan alw ar adroddiad gan Sonia Sodha a gomisiynwyd gan y Gronfa Loteri Fawr³.

¹ WCVA (2016) [Anodd ystadegol y trydydd sector](#).

² WCVA (2016) [Anodd ystadegol y trydydd sector](#), Tabl 7

³ Sodha, S. (2016) [Dyfodol 'gwneud lles' yn y Deyrnas Unedig](#), Cronfa Loteri Fawr

Rydym wedi adnabod rhai materion mawr yr ydym yn awyddus i'w trafod. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. Pwy sy'n pennu ein cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd?

Mae gan bron pob mudiad genhadaeth neu weledigaeth sy'n diffinio eu diben craidd. Mae llawer o fathau gwahanol o genhadaeth neu weledigaeth y gall mudiadau eu mabwysiadu, ond maent oll yn ymgorffori gwerthoedd o ryw fath. Weithiau bydd y gwerthoedd yn rhai amlwg, e.e. gan eu bod yn adlewyrchu ffydd benodol, ac weithiau eraill maent efallai'n cael eu cyflwyno fel 'synnwyr cyffredin' neu 'niwtral', ond y gwir yw eu bod nhw i gyd yn llawn gwerthoedd.

Gall arianwyr o bob math chwarae rôl sylweddol mewn llunio cenhadaeth, gweledigaethau a gwerthoedd mudiadau. Maent yn:

- fframio'r problemau y byddent yn disgwyl i'r sector cymdeithasol eu datrys,
- yn aml maent yn llunio'r dulliau y mae mudiadau'n eu mabwysiadu i ymdrin â phroblemau, ac
- maent bron bob amser yn penderfynu beth yw canlyniadau derbyniol.

Mae'r llywodraeth yn chwarae rôl sy'n arbennig o bwysig. Mae bron naw o bob deg o elusennau yng Nghymru'n derbyn rhywfaint o arian gan y llywodraeth⁴ ac mae grantiau Llywodraeth Cymru, awdurdod lleol a bwrdd iechyd yn cyfrif am 31% o incwm trydydd sector.⁵ At hynny mae llawer o fudiadau trydydd sector yn sicrhau contractau llywodraeth i gyflwyno gwasanaethau.

Mae maint yr ariannu gan y llywodraeth yn codi cwestiynau pwysig am annibyniaeth y sector cymdeithasol. Trwy 'ddilyn yr arian', mae risg y bydd mudiadau'n symud i ffwrdd o'u diben, tra gallai gofynion ariannu effeithio ar neu hyd yn oed gyfaddawdu gwerthoedd sefydliadol.

Mae gostyngiadau mewn ariannu'n golygu y gallai mudiadau wynebu penderfyniadau anodd am bwy maen nhw'n eu cefnogi a sut, gan gynnwys p'un a ddylid dileu neu gyfyngu mynediad i wasanaethau.

Gallai'r symudiad i gontractau eithrio rhan o'r 'lles' a grëir gan na ellir cofnodi'r buddion o fewn manyleb contract. Ac wrth i gontractio ddisodli grantiau, mae'r gwahaniaeth sydd eisoes yn aneglur rhwng y trydydd sector a'r sectorau cyhoeddus a phreifat ostwng ymhellach.

Cwestiynau i'w trafod

- Pwy yn wirioneddol sy'n llunio agenda ein mudiad ni a'r sector?

⁴ Allies, O., Jennings, Y. a Pharoah, C. (2015) **An insight into the future of charity funding in Wales**, Sefydliad Garfield Weston

⁵ WCVA (2016) Anodd ystadegol y trydydd sector, Ffigur. 1

- Sut mae elusennau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol yn cynnal ac yn dangos eu hannibyniaeth o'r llywodraeth?
- Sut dylai'r sector ymateb i wladwriaeth sy'n crebachu ac yn canolbwyntio ar gontractau?
- Ydy'r gwahaniaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector yn bwysig? A ddylent gydweithio'n fwy er lles pawb?

2. Pam ydym ni gwneud beth rydym ni'n gwneud?

Yr ail fater mawr yw sut mae elusennau, mudiadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol yn cyflawni eu cenhadaeth - yr hyn yr ydym yn ei wneud mewn gwirionedd. Mae Sonia Sodha yn adnabod tair ymagwedd fras:

- **Ymagwedd anghenion neu ddiffyg:** mae hyn yn canolbwyntio ar liniaru problemau neu ddiffygion pobl ac mae'n rhan annatod o bopeth.
- **Ymagwedd galluoedd:** mae hyn yn cydnabod bod gan yr holl bobl gryfderau ac asedau, ac y gallant ddefnyddio'r rhinweddau hyn i wella'u bywydau eu hunain.
- **Ymagwedd newid systemau:** mae hyn yn ymwneud â cheisio newid polisïau, deddfwriaeth neu sefydliadau - y llywodraeth fel arfer - i wella bywydau pobl.

Mae cryfderau a gwendidau i bob un o'r rhain. Nid pa un o'r un gorau mo'r mater ond p'un a oes cydbwysedd priodol rhyngddynt - mae rhai pobl yn awgrymu y ceir gormod o bwyslais ar 'anghenion' ar draul galluoedd a newid systemau.

Wrth benderfynu sut i gyflawni eu cenhadaeth, mae llawer o fudiadau'n canolbwyntio ar weithgareddau, prosiectau neu raglenni - rydym i gyd yn gyfarwydd â syniad 'y rhaglen ABC sy'n cyflwyno X o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn Y o ddigwyddiadau'. Yn gyffredinol, mesurir llwyddiant gweithgareddau fesul cyflawniad yn erbyn mesurau canlyniad neu allbwn penodol, wedi eu mesur yn y tymor byr fel arfer. Mae llawer llai o ffocws ar weithredu sy'n lleihau'n sylweddol neu hyd yn oed yn dileu'r broblem dros yr hir dymor, er gwaetha'r defnydd o Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau ymysg rhai mudiadau.

Yn aml mae arianwyr yn cadarnhau'r duedd hon trwy gefnogi prosiectau cyfnod penodedig penodol. Mae llawer yn amharod i ariannu costau cyffredinol mudiadau, ac mae'n anarferol i arianwyr gefnogi mudiadau, y bobl sy'n gweithio ynddynt neu ledaenu gwybodaeth a gafaelwyd trwy waith mudiadau.

Cwestiynau i'w trafod

- Oes gennym gydbwysedd priodol rhwng diwallu anghenion, adeiladu gallu a newid systemau? Os nac oes, sut gallwn newid y cydbwysedd?
- Ydy'r syniad o 'angen' a 'phroblemau cymdeithasol' yn ddefnyddiol? Sut gellir ei ddefnyddio heb bortreadu a thrin y bobl a'r cymunedau fel rhai goddefol neu ddioddefwyr?

- Sut gellir symud y ffocws i ffwrdd o 'weithgareddau' tuag at gyflawni gwelliannau cynaliadwy a hir dymor i fywydau pobl.
- Sut gellir cofnodi newidiadau hir dymor yn hytrach nag allbynnau tymor byr?

3. Sut gall mudiadau dyfu a gwella?

Mae'r drydedd set o faterion yn ymwneud â sut gall mudiadau sector cymdeithasol wella a datblygu.

Mae'r rhan fwyaf o fudiadau'n amlygu eu cyflawniadau'n effeithiol iawn, fel y gwelir mewn adroddiadau blynyddol a lluniau gwybodaeth sgleiniog. Mae er budd iddynt i greu delwedd gadarnhaol. Mae llawer llai i'w gweld yn medru ac yn fodlon edrych yn feirniadol ar sut y gallent wella eu gweithgareddau, er enghraifft yn anaml iawn y mae gwerthusiadau'n darparu mwy na dilysu allbynnau a chanlyniadau, ac weithiau mae mudiadau'n amharod i ddysgu gan ei gilydd. Yn ogystal ag arfer da, mae'n debygol iawn y ceir arfer gwael yn y sector hefyd.

Mae llawer o fudiadau sector cymdeithasol a'r unigolion sy'n gweithio ynddynt yn meddu ar wybodaeth ac arbenigedd unigryw. Nid yw'n glir a yw hyn yn cael ei werthfawrogi, ei wobrwyo neu ei rannu ar draws y sector, llai byth gyda mudiadau yn y sector cyhoeddus neu breifat. Y canlyniad yw nad yw'r 'da' y gallai'r mudiadau hyn ei greu wedi ei fwyafu.

O ganlyniad i hyn, mae rhai pobl yn teimlo bod mudiadau sector cymdeithasol wedi mynd yn hunanhyrwyddol, gan fodoli er eu lles eu hunain yn unig. I arsylwr beirniadol gall ymddangos y diwallir 'anghenion' yn anaml iawn er gwaethaf gwaith y mudiadau. Ac eto dylai myfyrio, dysgu a gwybod pryd i stopio fod yn rhan ganolog o weithrediad y sector cymdeithasol.

Er bod mudiadau sector cymdeithasol yn annibynnol, maent hefyd yn atebol i reoleiddwyr megis y Comisiwn Elusennau ac i arianwyr. Gyda rhai anawsterau proffil uchel yn y sector cymdeithasol yn ddiweddar a symud tua chontractau yn hytrach nag arian grant, mae'n amserol ystyried p'un a yw trefniadau atebolrwydd yn effeithiol ai beidio. Mae achos hefyd dros ddadlau bod mudiadau sector cymdeithasol yn atebol i'r bobl a chymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu, ond mae proffil llawer is i hyn.

Cwestiynau i'w trafod

- Sut gellir annog mudiadau i edrych yn onest ac yn feirniadol ar eu perfformiad? Sut dylid adnabod a gwella arfer gwael?
- Sut gall mudiadau osgoi fod yn hunanhyrwyddol? A beth ddylid ei wneud os nad yw mudiadau bellach yn gynaliadwy naill ai'n ariannol neu gan nad oes eu hangen bellach?
- Sut dylai arbenigedd mudiadau cymdeithasol wrth greu 'lles' gael ei werthfawrogi a'i rannu?
- Sut gellir cryfhau atebolrwydd? Oes angen i'r cydbwysedd rhwng atebolrwydd i arianwyr, rheoleiddwyr a phobl a chymunedau newid, ac os felly, sut?